# Cylchlythyr / Newsletter

**Tymor y Gwanwyn (Hanner Tymor 1) 2024** | Spring Term (Half Term 1) 2024






## Neges Gan y Pennaeth / Message From the Headteacher

**Mae wedi bod yn ddechrau cadarnhaol iawn i'r flwyddyn i Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod. Yr wythnos ddiwethaf, cawsom ymweliad gan y Consortia Rhanbarthol i fonitro safonau mewn mathemateg. Mae'n bleser gennyf rannu gyda chi fod yr ymweliad wedi mynd yn dda iawn gyda llawer o nodweddion rhagorol yn cael eu hamlygu ar draws yr ysgol. Hoffwn ddiolch i'r staff am eu gwaith caled a'u hymroddiad. Diolch yn fawr i'r holl rieni a gwblhaodd ein Holiadur Rhieni. Rhannwyd y canlyniadau gyda'r Corff Llywodraethol yn ddiweddar a byddant yn cael eu rhannu gyda chi yn fuan. Unwaith eto, mae cymaint o themâu cadarnhaol yn dod drwodd. Diolch yn fawr am eich ymatebion.**

*It has a been a very positive start to the year for Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod. Last week, we had a visit from the Regional Consortia to monitor standards in mathematics. I'm delighted to share with you that the visit went very well with many excellent features being highlighted across the school. I would like to thank the staff for their hard work and dedication. Also, many thanks to all parents that completed our Parent Questionnaire. The results were shared with the Governing Body recently and will be shared with you soon. Again, so many positive themes coming through. Many thanks for your responses.*

# Y Siarter Iaith

## Ein Targedau Siarter Iaith / Our Siarter Iaith Targets

| | |
|---|---|
| **Targed 1**<br>**Target 1** | **Siarad mwy o Gymraeg tu allan i'r ysgol**<br>*Use more Welsh outside of school* |
| **Targed 2**<br>**Target 2** | **Gwrando ar fwy o gerddoriaeth Cymraeg**<br>*Listen to more Welsh music* |
| **Targed 3**<br>**Target 3** | **Gwylio mwy o raglenni Cymraeg**<br>*Watch more Welsh programmes* |
| **Targed 4**<br>**Target 4** | **Siarad mwy o Gymraeg ar yr iard ac yn y coridorau**<br>*Speak more Welsh on the yard and in the corridors* |
| **Targed 5**<br>**Target 5** | **Defnyddio apiau a thechnoleg trwy gyfrwng y Gymraeg**<br>*Use more Welsh apps and technology* |

## Y Gornel Ddysgu / The Learning Corner

Hello! - Shwmae!
Good morning - Bore da
Good afternoon - Prynhawn da
Good evening - Noswaith dda
Good night - Nos da
How are you? - Sut wyt ti?
May I have...? - Ga i...?



### Ein Pigion Cerddorol / Our Musical Playlist

Harbwr Diogel (Elin Fflur)
Trôns Dy Dad (Gwibdaith Hen Fran)
Y Cwm (Huw Chiswell)
Hei Mistar Urdd (Mei Gwynedd)

### Ap y mis




Duolingo

Cenedl Heb Iaith – Cenedl Heb Galon

# Her Seren a Sbarc

Dyma **'Her Seren a Sbarc'** mis **Chwefror**. Cofiwch i drydaru eich ymdrechion ar Trydar a chynnwys @yggf123 gyda'r hashnod #siarteriaithyggf

*Here is the '**Her Seren a Sbarc (Seren & Sbarc Challenge)** for the month of **Chwefror (February)**. Please remember to tag us on Twitter in your efforts, please tag @yggf123 and use the hashtag #siarteriaithyggf*

**Gwyliwch 'Boom'**
Watch 'Boom'




**Gofynnwch "Pa ddiwrnod yw hi??"** Ask your friend 'Pa ddiwrnod yw hi?

| Dyddiau'r Wythnos |
|---|
| Dydd Llun |
| Dydd Mawrth |
| Dydd Mercher |
| Dydd Iau |
| Dydd Gwener |
| Dydd Sadwrn |
| Dydd Sul |

**Canwch 'Cân y Misoedd'**
Sing along to 'Cân y Misoedd'




**Dawnsiwch i gân 'Parti'r Ysbrydion'**
Dance along to 'Parti'r Ysbrydion'





**Chwaraewch gêm "Creu gyda Cyw" ar Cyw**
Play the "Creu Gyda Cyw' game on Cyw




**Ewch am dro i ffeindio pethau coch** / *Go for a walk to find red things*





Cenedl Heb Iaith – Cenedl Heb Galon

YSGOL GYMRAEG CENEDL HEB IAITH CENEDL HEB GALON GILFACH FARGOD

# Newyddion Dosbarth
# Class News

## Dosbarth Branwen
*Meithrin/Derbyn / Nursery/Reception*

**Mae'r hanner tymor yma wedi bod yn un byr iawn, ond rydyn ni wedi llwyddo gwneud llawer iawn yn yr amser yma. Rydyn ni wedi mwynhau gwrando ar stori Cawr Gilfach Fargod, ac wedi gwneud llawer o waith arno. Cafon ni'r pleser o gynnal Caffi'r Cwm am y tro cyntaf, ble gwnaethon ni adrodd y stori a pherffomio dawns y tylwyth teg o flaen ein rhieni. Ar ôl hwn i gyd, cafon ni gyfle hyfryd i greu tai tylwyth teg gyda'n teuluoedd. Joiodd bawb mas draw!**

*This half term has been a short one but we have succeeded to do so much. We have enjoyed listening to the story of Cawr Gilfach Fargod, and have done lots of work based on it. We had the pleasure of hosting Caffi'r Cwm for the first time, where we told the story then performed a fairy dance in front of our parents. Afterwards, we created our own fairy houses with our families. Everyone had lots of fun!*






## Dosbarth Dwynwen
*Blwyddyn 1/2 / Year 1/2*

**Rydyn ni wedi bod wrthi'n gweithio'n galed yn y dosbarth yn ystod yr hanner tymor yma. Rydyn ni wedi bod yn dysgu stori Cawr Gilfach Fargod ac yn edrych ar wahanol fathau o gartrefi. Yn mathemateg, rydyn ni wedi bod yn mwynhau gyda chyfri a dysgu bondiau rhif. Hefyd, yn ystod Mercher Mentrus, buon ni'n adeiladu cartrefi tylwyth teg!**

*We have been working hard in class during this half term. We have been learning the story of Cawr Gilfach Fargod and looking at different types of homes. In maths, we've been having fun with counting and learning number bonds. Also, during Mercher Mentrus, we built homes for little fairies!*

# Newyddion Dosbarth
# Class News

## Dosbarth Gelert

*Blwyddyn 3/4 / Year 3/4*

**Yr hanner tymor yma roedden ni'n ddigon lwcus i gwrdd a gweithio gydag awdur lleol, Chris Morgan. I baratoi am hyn, roedden ni wedi darllen stori Cawr Gilfach Fargod, creu stribed comig, ysgrifennu e-bost at yr awdur a pharatoi cwestiynau i ofyn iddo. Yn ystod ei weithdy fe ddylunion ni cymeriadau ein hunain ac roedden ni wrth ein boddau!**

*This half term we were lucky enough to meet and work with a local author, Chris Morgan. In preparation for this, we read The Giant of Gilfach Fargod, created comic strips based on the book, wrote an e-mail to the author and prepared questions to ask him. During the workshop, we had the opportunity to design our own characters and we all thoroughly enjoyed this!*




## Dosbarth Bendigeidfran

*Blwyddyn 5/6 / Year 5/6*




**Un o uchafbwyntiau yr hanner tymor yma oedd cael gweithio gyda Bardd Plant Cymru, Nia Morias, i lunio cerddi yn ffocysu ar hunan-ddelwedd a hunan-hyder. Braf iawn oedd cael croesawu Nia i'r ysgol a hoffem ddiolch yn fawr iddi am ei hamser. Diolch hefyd i Chris Morgan am ddod i'r ysgol i gynnal gweithdy celf ar greu cymeriadau gyda ni.**

*One of the highlights of this half term was getting to work with Welsh Language Children's Laureate, Nia Morias, to compose poems focusing on self-image and self-confidence. It was very nice to welcome Nia to the school and we would like to thank her very much for her time. Thanks also to Chris Morgan for coming to the school to do an art workshop on creating characters with us.*

# Newyddion Dosbarth
# Class News

**<u>Canolfan Gwenllian</u>**
*Amrywiol / Various*

**Yr hanner tymor yma, rydym ni wedi croesawu carfan newydd o ddisgyblion i Ganolfan Gwenllian! Mae pawb wedi bod yn brysur yn dod i adnabod ei gilydd ac wedi mwynhau chwarae gemau iaith i ddatblygu sgiliau llafar. Rydym ni wedi cael hwyl yn chwarae rôl yn y siop yn prynu gwahanol fwydydd ac yn edrych ymlaen at goginio pitsas blasus!**




*This half term we have welcomed a new cohort to Canolfan Gwenllian! Everybody has been busy getting to know one and other and have enjoyed playing language games to help develop our oracy skills. We have had lots of fun, role-playing in the shop and buying different food, as well as looking forward to making our tasty pizzas!*

# Dyddiadau Pwysig
# Important Dates

| Dyddiad / Date | Digwyddiad / Event |
|---|---|
| 13/2/24 | **Dydd Mawrth Ynyd**<br>*Shrove Tuesday* |
| 20/2/24 | **Gweithdy Rhieni - Diogelwch ar y We**<br>*Parents Workshop - Online Safety* |
| 22/2/24 | **Gweithdai NSPCC (Yn yr ysgol i'r disgyblion)**<br>*NSPCC Workshops (In school for the pupils)* |
| 24/2/24 | **Eisteddfod yr Urdd (Cylch Cwm Rhymni)**<br>*Eisteddfod yr Urdd (Cwm Rhymni District)* |
| 28/2/24 | **Cystadleuaeth Pêl-droed yr Urdd**<br>*Urdd Football Competition* |
| 29/2/24 | **Cystadleuaeth Pêl-droed Clwstwr Caerffili (Rownd 2)**<br>*Caerphilly Cluster Football Competition (Round 2)* |
| 1/3/24 | **Dydd Gŵyl Dewi**<br>*Saint David's Day* |
| 5/3/24 | **Gŵyl Rygbi TAG Y Dreigiau**<br>*Dragons TAG Rugby Festival* |
| 7/3/24 | **Diwrnod Cenedlaethol y Llyfr**<br>*World Book Day* |
| 8/3/24 | **Bore Coffi Gwasanaeth y Seicolegwyr Addysg (Rhieni)**<br>*Education Psychology Service's Coffee Morning (Parents)* |
| 10/3/24 | **Sul y Mamau**<br>*Mothering Sunday* |
| 15/3/24 | **Diwrnod y Trwynau Coch**<br>*Red Nose Day* |
| 31/3/24 | **Sul y Pasg**<br>*Easter Sunday* |